# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3488

## (300)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-3 a 5-10. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.16

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad ar Daith Cyllideb 2015 - 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'

Dechreuodd yr eitem am 14.24

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Nodau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.55

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft

Dechreuodd yr eitem am 15.25

## 6 Dadl ar Gyfnod 4 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.12

**NDM5893 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Dargedau Tai Fforddiadwy

Dechreuodd yr eitem am 16.23

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig a'r Gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5884 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd diweddaraf tuag at gyflawni targed uwch Llywodraeth Cymru o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn, a bod 91 y cant o'r targed hwn wedi'i gyflawni.

Yr ystadegau diweddaraf ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru 2014-15 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen i ddod ag argyfwng tai Cymru i ben ac yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gysylltiad rhwng targed tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru a nifer y bobl sydd angen tai.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 33 | 48 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gwaith ymchwil yr Athro Holmans sy'n nodi os bwriedir cwrdd â'r angen a'r galw am dai yng Nghymru yn y dyfodol, mae angen dychwelyd i gyfraddau adeiladu tai nas gwelwyd ers bron 20 mlynedd a chynnydd yng nghyfradd twf tai fforddiadwy.

Adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru - 'Future Need and Demand for Housing in Wales' (Saesneg yn unig)

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd Gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid dyblu'r targed ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 33 | 49 |

**Gwrthodwyd Gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5884 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd diweddaraf tuag at gyflawni targed uwch Llywodraeth Cymru o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn, a bod 91 y cant o'r targed hwn wedi'i gyflawni.

2. Yn nodi gwaith ymchwil yr Athro Holmans sy'n nodi os bwriedir cwrdd â'r angen a'r galw am dai yng Nghymru yn y dyfodol, mae angen dychwelyd i gyfraddau adeiladu tai nas gwelwyd ers bron 20 mlynedd a chynnydd yng nghyfradd twf tai fforddiadwy.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y Cynnig wedi'i ddiwygio**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.02

Daeth y cyfarfod i ben am 17.03

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2015**